**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 718 (Cy.25 )

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adrannau 78 a 79 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn darparu bod grant cynnal refeniw yn daladwy i unrhyw gorff sy'n darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol ac sy'n gorff a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau. Breiniwyd y pwerau hyn bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu cyrff i'r diben hwn. Diddymir a disodlir y Rheoliadau blaenorol gan y Rheoliadau hyn mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny. Daw Syniad (yr Asiantaeth dros Welliant, Datblygiad a Chyflogwyr yng Nghymru) yn gorff penodedig i ddibenion adran 78.

**National Assembly for Wales**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No.718 (W.25 )

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Sections 78 and 79 of the Local Government Finance Act 1988 provide for revenue support grant to be payable to any body which provides services for local authorities and which is specified by the Secretary of State in regulations. These powers are now vested in the National Assembly for Wales in relation to Wales.

These Regulations specify bodies for this purpose. The previous Regulations are revoked and replaced by these Regulations in relation to financial years beginning on or after 1st April 2000. Syniad (the Welsh Improvement, Development and Employers' Agency), becomes a specified body for the purposes of section 78.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 718 (Cy.25)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *8 Chwefror 2000* |
| *Yn dod i rym* | *9 Chwefror 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 76(4) a 140(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**a**), ac a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru (**b**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 9 Chwefror 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig.

**Diddymu**

**2**. Mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny, diddymir drwy hyn Reoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) 1992(**c**), Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio)1993(**ch**), Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio)1995(**d**), a Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio)1998(**dd**).

(a) 1988 p.41. Diwygiwyd adran 76 gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.19). Atodlen 10, paragraff 8.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1992/89

(ch) O.S. 1993/139

(d) O.S. 1995/3184

(dd) O.S. 1998/2995

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 718 (W.25)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Wales) Regulations 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *8th February 2000* |
| *Coming into force* | *9th February 2000* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 76(4) and 140(4) of the Local Government Finance Act 1988(**a**), which are now vested in it so far as exercisable in Wales(**b**).

**Citation, commencement and application**

**1.**-(1) These Regulations may be cited as the Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 9th February 2000.

(2) These Regulations apply only to Wales.

**Revocation**

**2**. In relation to any financial year beginning on or after 1st April 2000, the Revenue Support Grant (Specified Bodies) Regulations 1992(**c**), the Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Amendment) 1993(**d**), the Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Amendment) Regulations 1995(**e**) the Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Amendment) Regulations 1998(**f**) are hereby revoked.

(a) 1988 c.41. Section 76 was amended by the Local Government Finance Act 1992 (c.19). Schedule 10, paragraph 8.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1992/89

(d) S.I. 1993/139

(e) S.I. 1995/3184

(f) S.I. 1998/2995

**Cyrff Penodedig**

**3**. Mae'r cyrff canlynol yn rhai penodedig at ddibenion adran 76(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, sef:-

(a) Bwrdd Arholi'r Gwasanaethau Tân;

(b) Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus Oedolion;

(c) Biwro Cydwladol Llywodraeth Leol;

(ch) Corff Cydgysylltu yr Awdurdodau Lleol ar Fwyd a Safonau Masnach;

(d) Public Private Partnerships Programme Limited;

(dd) Syniad;

(e) yr Asiantaeth dros Welliant a Datblygiad Llywodraeth Leol;

(f) Corff Cyflogwyr Llywodraeth Leol; ac

(ff) Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg.

**Specified Bodies**

**3**. The following bodies are specified for the purposes of section 76(4) of the Local Government Finance Act 1988, namely:-

(a) The Fire Services Examinations Board;

(b) The National Institute for Adult Continuing Education;

(c) The Local Government International Bureau;

(d) The Local Authorities Co-ordinating Body on Food and Trading Standards;

(e) Public Private Partnerships Programme Limited;

(f) Syniad;

(g) Improvement and Development Agency for Local Government;

(h) Employers' Organisation for Local Government; and

(i) National Foundation for Educational Research.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 **(a)**

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(a)**

8 Chwfror 2000

8th February 2000

*Dafydd Elis Thomas*

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38

(a) 1998 c.38

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 718 (Cy.25 )

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No.718 (W.25 )

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Wales) Regulations 2000

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090058-8

**£1.50**

WO6106 06/00 ON

9 780110 900582